SIARAD AM Y PROSIECT BYWYDAU IFANC

NODIADAU CEFNDIR AR GYFER Y FIDEO

Mae'r nodiadau canlynol yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol, cwestiynau trafod posibl a rhestr dermau i'w defnyddio gyda'r fideo *Siarad am y Prosiect Bywydau Ifanc*. Mae'r fideo yma yn dangos cyfweliad gyda Pati, ymchwilydd gyda Bywydau Ifanc. Mae Pati yn trafod y mathau o ddata a gesglir gan Bywydau Ifanc, a sut y mae'r data hyn yn cael eu casglu a'u rhannu gyda sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd.

Beth yw Bywydau Ifanc?

- *Astudiaeth amlddisgyblaethol* ryngwladol yw Bywydau Ifanc sy'n anelu at wella dealltwriaeth pobl o effeithiau tlodi ar fywydau plant. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth er mwyn helpu *llunwyr polisi* i wneud gwell cynlluniau a rhai mwy effeithiol er mwyn gwella bywydau plant a'u teuluoedd.

Pa fathau o ddata a gesglir?

- Mae ymchwilwyr wedi dilyn bywydau bron i 12,000 o blant mewn pedair gwlad *incwm isel ac incwm canolig* ers dros 15 o flynyddoedd: Ethiopia, India, Peru a Fiet-nam.
- Mae'r astudiaeth yn cynnwys dau *gohort* neu grwpiau o blant ymhob gwlad. Roedd y grŵp ifancach o blant yn flwydd oed pan ddechreuwyd casglu data yn 2002 ac roedd y plant yn y *cohort* hŷn yn wyth mlwydd oed. Mae'r plant hyn wedi derbyn ymweliadau ac wedi'u cyfweld bum gwaith hyd yma. Galwyd pob ymweliad yn gylch casglu data.

  Cafodd y plant eu dewis ar hap o blith 20 o gymunedau ymhob gwlad. Caiff y cymunedau hyn eu galw'n *safleoedd sentinel*. Cafodd y *safleoedd sentinel* hyn eu dewis yn benodol er mwyn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf tlawd o fewn y pedair gwlad. Gwnaed hyn oherwydd bod Bywydau Ifanc wedi'i sefydlu'n benodol i ymchwilio i effaith tlodi ar fywydau plant. Cafodd y cymunedau hefyd eu dewis er mwyn cynrychioli gwahanol leoliadau daearyddol, gyda theuluoedd o wahanol grwpiau ethnig a phobl sy'n ennill arian drwy wahanol ffyrdd.

Cwestiynau i'w hystyried:

- *Yn eich barn chi, pam y gwnaeth yr ymchwilwyr gyfweld miloedd o blant yn hytrach na dim ond ychydig ohonynt?*
- *Yn eich barn chi, beth yw cyfanswm nifer y plant rhwng 0 ac 14 oed yn y pedair gwlad hyn? (Ethiopia: 41 miliwn, India: 380 miliwn, Peru: 9 miliwn a Fiet-nam: 92 MILIWN. Data Agored Banc y Byd, 2015:* data.worldbank.org/ <http://data.worldbank.org/>, mae'r atebion wedi'u talgrynnu i'r filiwn agosaf). Er bod Bywydau Ifanc wedi cyfweld miloedd o blant mae maint y sampl yn gymharol fach o ystyried cyfanswm nifer y plant ymhob gwlad.
- *Yn eich barn chi, a yw ffordd o fyw yr holl blant yn y pedair gwlad hyn yn debyg i ffordd o fyw y plant a fu'n rhan o brosiect Bywydau Ifanc?* O fewn y pedair gwlad hyn mae plant mwy cyfoethog (sydd gan amlaf yn byw mewn trefi mwy neu ddinasoedd) ac sydd â ffordd o fyw sy'n debyg i ffordd o fyw llawer o bobl ifanc yn y DU.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Mae Bywydau Ifanc yn casglu sawl math gwahanol o ddata am y plant, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae enghreifftiau o'r data a gesglir am y plant a'u teuluoedd yn cynnwys:
  - Pwy yw aelodau eu teulu a sut maent yn perthyn i'w gilydd.
  - Iechyd a maeth; er enghraifft, deiet, taldra a phwysau, a hefyd fanylion unrhyw afiechydon neu glefydau y gallant fod wedi dioddef ohonynt.
  - Hanes addysgol; er enghraifft, a yw'r plant yn mynd i'r ysgol (neu wedi mynd i'r ysgol yn y gorffennol) ac a arferai eu rhieni fynd i'r ysgol.
  - Sut y mae'r plant yn treulio diwrnod arferol.
  - A yw'r plant a/neu'r bobl ifanc yn eu teulu yn gweithio, ac os ydynt yn gweithio, beth yw eu gwaith.
  - Sut y mae'r plant yn teimlo am eu bywydau; er enghraifft, a ydynt o'r farn fod ganddynt fywyd da.
  - Gobeithion o ran y dyfodol; er enghraifft, pa swyddi yr hoffai'r plant eu gwneud ac os/pryd yr hoffent briodi a/neu gael plant.

Gwybodaeth am y llun: Mesur taldra yn Fiet-nam.
Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc

Cwestiynau i'w hystyried:

- *Pam y gallai'r data hyn gael eu casglu yn eich tyb chi?*
- *Pwy allai ddefnyddio'r data hyn yn eich tyb chi?*

Sut y caiff data Bywydau Ifanc eu casglu?

- Mae Bywydau Ifanc yn cydweithio â sefydliadau partner ymhob un o'r gwledydd er mwyn casglu'r data. Pob tair i bedair blynedd, mae timau o *weithwyr maes* yn teithio i'r cymunedau ble mae'r plant a'u teuluoedd yn byw. Yn gyntaf, maent yn cadarnhau bod y teuluoedd yn parhau'n fodlon i fod yn rhan o'r prosiect Bywydau Ifanc a'u bod yn hapus i gael eu cyfweld. Mae rhai o'r *gweithwyr maes* wedi bod yn rhan o'r prosiect Bywydau Ifanc ers y dechrau'n deg ac felly maent yn adnabod y teuluoedd yn dda. Mae hyn yn golygu bod y teuluoedd yn fwy tebygol o barhau'n rhan o'r prosiect oherwydd maent yn ymddiried yn y *gweithwyr maes* ac ym mhrosiect Bywydau Ifanc.

Sut y mae'r dulliau casglu data wedi newid ers dechrau Bywydau Ifanc yn 2000?

- Mae'r dull o gasglu data wedi newid yn sylweddol yn ystod oes y prosiect. Yn ystod dau gylch cyntaf y prosiect cafodd y data eu casglu gan ddefnyddio holiaduron papur. Unwaith roedd yr holiaduron hyn wedi'u cwblhau roedd angen cofnodi'r data ar gronfa ddata electronig.
- Ar ôl y ddau gylch casglu data cyntaf gwnaeth ymchwilwyr Bywydau Ifanc ystyried sut y gallent gasglu'r dystiolaeth yn electronig, yn hytrach na thrwy gwblhau'r holiaduron papur. Gwnaethant ddechrau ystyried y defnydd o *Gyfweld Personol gyda chymorth cyfrifiadur* neu CAPI. Trwy ddefnyddio CAPI roedd yr ymchwilwyr yn gallu ymweld â'r cymunedau gyda'r holiadur ar ddyfais electronig fel llechen neu liniadur. Golygai hyn y gallai'r ymatebion gael eu cofnodi'n electronig a byddai'r data ar gael i'w gwirio, eu dadansoddi a'u defnyddio ar unwaith.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Nodiadau cefndir ar gyfer y fideo

OXFAM

Gwybodaeth am y llun: Defnyddio holiaduron papur yn Ethiopia.
Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc

Gwybodaeth am y llun: Defnyddio gliniadur i gasglu data yn India.
Cydnabyddiaeth y llun: © Bywydau Ifanc

Cwestiynau i'w hystyried:

- *Yn eich barn chi, beth yw'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth ddefnyddio holiaduron papur er mwyn casglu data?* Er enghraifft, gallai defnyddio holiaduron papur gynyddu risg camgymeriadau a hefyd gynyddu'r amser a dreulir yn prosesu'r data. Eto i gyd, gallai'r bobl sy'n cael eu cyfweld deimlo'n fwy cyfforddus wrth lenwi'r holiaduron eu hunain a gallai fod yn fwy ymarferol mewn ardaloedd heb lawer o fynediad at drydan neu ddim mynediad o gwbl.
- *Yn eich barn chi, beth yw'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth ddefnyddio llechen neu liniadur i gasglu data'n electronig?* Er enghraifft, gallai defnyddio CAPI sicrhau bod data'n fwy cywir a gallai data gael eu prosesu'n gyflymach ac yn haws. Eto i gyd, efallai na fyddai rhai pobl sy'n cael eu cyfweld yn gyfforddus â'r dull casglu data a gallai fod yn ddrud. Mae hefyd yn dibynnu ar allu ymchwilwyr i ddefnyddio'r dechnoleg a'r feddalwedd newydd.

Sut y caiff data Bywydau Ifanc eu rhannu gyda phobl eraill a sut y cânt eu defnyddio?

- Unwaith y mae'r data wedi'u casglu mae'r cyfan yn cael eu gwirio a'u tacluso er mwyn sicrhau bod unrhyw gofnodion data anghyflawn, anghywir neu amherthnasol yn cael eu dileu. Yna mae'r data yn cael eu *hanonymeiddio*. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw ddata wedi'u cysylltu ag enwau pobl na chymunedau penodol. Caiff hyn ei wneud er mwyn diogelu manylion personol y bobl a gaiff eu cyfweld.
- Yn dilyn hyn caiff data Bywydau Ifanc eu hanfon i UK Data Service ble y gall unrhyw ymchwilydd, lluniwr polisi neu unrhyw un sydd â diddordeb mewn defnyddio'r data eu gweld a'u lawrlwytho am ddim. Caiff y data eu defnyddio gan yr ymchwilwyr a'r llunwyr polisi sy'n ceisio deall bywydau plant a sut y gellir gwella bywydau plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi.

Cwestiynau i'w hystyried:

- *Yn eich barn chi, pam y caiff y data eu hanonymeiddio? Pam y mae hi'n bwysig sicrhau nad oes modd adnabod y bobl sy'n rhan o'r prosiect?* Er enghraifft er mwyn diogelu'r plant rhag diddordeb o'r tu allan a sicrhau nad oes modd adnabod unigolion a thynnu sylw atynt mewn unrhyw ffordd.
- *Yn eich barn chi, sut y gallai'r data hyn gael eu defnyddio er mwyn gwella bywydau plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi?* Er enghraifft, gallai'r data hyn helpu llywodraethau a sefydliadau i bennu'r meysydd, er enghraifft iechyd neu addysg, y mae angen gwario mwy o arian arnynt.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Nodiadau cefndir ar gyfer y fideo

OXFAM

Geirfa

- *Anonymeiddio*
  Golyga hyn waredu unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod unigolyn neu gymuned benodol.
- *CAPI*
  CAPI (Cyfweld personol gyda chymorth cyfrifiadur) – dyma dechneg gyfweld ble mae'r person sy'n cael ei gyfweld neu'r person sy'n cyfweld yn defnyddio cyfrifiadur.
- *Cohort*
  Grŵp o bobl sy'n rhannu nodweddion neu sydd â nodweddion cyffredin.
- *Gweithwyr maes*
  Gweithwyr maes Bywydau Ifanc yw'r bobl sy'n mynd allan i'r cymunedau i gasglu'r data.
- *Amrywiaeth ddaearyddol, ethnig ac amrywiaeth o ran ffordd o fyw*
  Mae hyn yn cyfeirio at wahanol leoliadau daearyddol, teuluoedd o wahanol grwpiau ethnig a phobl sy'n ennill arian mewn gwahanol ffyrdd.
- *Marchnad lafur*
  Y farchnad lafur yw'r cyflenwad o bobl mewn gwlad neu ardal benodol sy'n gallu gweithio ac sy'n barod i weithio.
- *Gwaddol*
  Golyga hyn y bydd data Bywydau Ifanc yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant sy'n byw mewn tlodi a bydd yn bwysig am amser hir.
- *Gwledydd incwm isel ac incwm canolig*
  Gall gwledydd gael eu rhannu mewn gwahanol grwpiau (isel, canolig ac uchel) gan ddibynnu ar yr incwm cyfartalog y fesul person sy'n byw yno. Caiff hyn ei gyfrifo drwy adio cyfanswm yr arian a gaiff ei ennill mewn gwlad dros y flwyddyn ac yna caiff y rhif yma ei rannu â nifer y bobl sy'n byw yn y wlad. Mae gwahaniaethau enfawr rhwng incwm gwahanol wledydd. Mae'r DU yn wlad incwm uchel.
- *Astudiaeth amlddisgyblaethol*
  Golyga hyn fod Bywydau Ifanc yn astudiaeth sy'n cyfuno gwahanol bynciau neu feysydd ymchwil.
- *Lluniwr polisi*
  Lluniwr polisi yw person sy'n gyfrifol am lunio polisïau neu sydd ynghlwm wrthynt (cynlluniau neu syniadau ynghylch yr hyn i'w wneud mewn sefyllfaoedd penodol).
- *Cyfradd wrthod*
  Y gyfradd wrthod yw canran y teuluoedd sy'n gwrthod cymryd rhan yn y prosiect Bywydau Ifanc ac sy'n gwrthod cael eu cyfweld.
- *Safle Sentinel*
  Cymuned yw safle sentinel lle y caiff data manwl eu casglu a'u dadansoddi fel sail i raglenni a pholisïau sy'n effeithio ar ardal ddaearyddol fwy.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam yn ogystal â Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.